

**GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A THAI**  
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**AMODAU TRWYDDEDU A CHANLLAWIAU AR GYFER**  
**CATHDAI PRESWYL**

# **Cynnwys**

## **1. AMODAU CYFFREDINOL**

- 1.1 Dangos Trwydded
- 1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod

## **2. LLETY AC AMGYLCHEDD**

- 2.1 Adeiladwaith
- 2.2 Maint y Llety
- 2.3 Gwely
- 2.4 Tymheredd a Gwres
- 2.5 Golau
- 2.6 Awyru
- 2.7 Glanweithdra
- 2.8 Rheoli Plâu
- 2.9 Draenio a Chael Gwared ar Wastraff

## **3. DIET A MAETH**

- 3.1 Bwyd a Diod
- 3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

## **4. YMDDYGIAD ARFEROL**

- 4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff
- 4.2 Goruchwyllo
- 4.3 Nifer Uchaf o Gathod y Gellir eu Cadw a Gofynion Staff

## **5. IECHYD A LLES**

- 5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
- 5.2 Rheoli Clefydau a Chael Brechiadau
- 5.3 Cyfleusterau Arwahanu
- 5.4 Gofynion Amrywiol
- 5.5 Cludo Cathod

- 5.6 Diogelu rhag Tân
- 5.7 Diogelwch Offer Trydanol

## **6. CADW COFNODION**

- 6.1 Cofrestr
- 6.2 Adnabod Unedau

## **7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**

- 7.1 Meddyginiaeth Rheolaidd
- 7.2 Cymdeithasu
- 7.3 Ysgogiad Gweledol ac Ategolion

## **ARGYMHELLIAD**

Polisi Yswiriant

## **MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG**

- A – Dull Apeliadau
- B – Canllaw Rhagofalon Tân
- C – Iechyd a Diogelwch

## 1. Amodau Cyffredinol

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<b>1.1 Dangos Trwydded</b>  a. Rhaid dangos copi o'r drwydded a'i hamodau yn addas i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn y sefydliad preswyl.	
<b>1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod</b>  a. Cathod yn unig sy'n cael lletya o fewn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.	

## 2. Llety ac Amgylchedd

*Rhaid cadw cathod mewn llety sy'n addas o ran adeiladwaith, maint y llety, gwely, cyfleusterau ymarfer corff, tymheredd a gwres, golau, awyru, glanweithdra, a chael gwared ar wastraff.*

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<b>2.1 Adeiladwaith</b>  a. Nid ydych yn cael defnyddio unrhyw lety arall oni bai am y rhai hynny a fanylir yn y cynllun sydd wedi'i gymeradwyo ac sy'n amgaeedig gyda'ch trwydded. b. Ni chaniateir defnyddio unrhyw lety newydd hyd nes y bydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr awdurdod trwyddedu.	Y cynllun sydd wedi'i gymeradwyo yw'r diagram "cynllun" sydd wedi'i gynnwys gyda'ch trwydded flynyddol. Fe argymhellir yn gryf fod pob eiddo newydd yn cael arweiniad ynglŷn ag unrhyw ganiatâd cynllunio posibl y bydd ei angen o bosibl mewn perthynas â 'newid defnydd' adeiladau presennol neu adeiladu adeiladau newydd.

<ul style="list-style-type: none"> <li><b>c.</b> Mae'n rhaid i'r sefydliad gael ei osod a'i weithredu yn unol â'r cynllun sydd wedi'i gymeradwyo bob amser.</li> <li><b>d.</b> Cyn cynnal unrhyw newidiadau, mae'n rhaid cyflwyno'r cynlluniau a chael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol.</li> <li><b>e.</b> Rhaid adeiladu pob uned ar sail goncrïd gyda chroen atal lleithder sy'n ateb safonau Rheoleiddio Adeiladu.</li> <li><b>f.</b> Rhaid trin pob pren allanol rhag pydru e.e. wedi'i danaleiddio. Ni chaniateir defnyddio unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys unrhyw sylweddau gwenwynig i gathod.</li> <li><b>g.</b> Rhaid i bob wyneb mewnol a ddefnyddir wrth adeiladu waliau, lloriau, rhaniadau, drysau a fframiau drysau fod yn wydn, llyfn ac anhydraidd. Ni ddylid cael unrhyw bigynau a allai achosi anaf.</li> <li><b>h.</b> Lle defnyddir rhwyll alfanedig wedi'i weldio dylai diamedr y weiren fod yn fwy na 1.60mm (16 rhwyll wedi'i weldio trwch 16) ac eithrio unrhyw orchudd ac ni ddylai maint y rhwyll fod yn fwy na 2.5cm (1").</li> <li><b>i.</b> Dylid defnyddio maint rhwyll presennol sydd hyd at 5cm (2") ar gyfer dal cathod sy'n oedolion yn unig, a phan fydd yn cael ei newid dylai fod yn rhwyll 2.5cm.</li> <li><b>j.</b> Rhaid i loriau bob adeilad ac uned fod yn ddeunydd llyfn ac anhydraidd sy'n gallu cael ei lanhau yn hawdd.</li> <li><b>k.</b> Rhaid i lawr mewnol bob uned sydd newydd eu hadeiladu fod ar ddigon o oleddf o'r man cysgu i sianel ddraenio â gorchudd.</li> <li><b>l.</b> Ni ddylai system ddraenio fynd heibio am yr ochrau neu'r rhaniadau, fel nad ydyw halogiad yn trosglwyddo rhwng unedau.</li> <li><b>m.</b> Lle defnyddir drysau plastig gydag ymylon metel, rhaid siamffro ymylon y sribynnau metel yn ddigonol i atal unrhyw niwed i gathod.</li> <li><b>n.</b> Rhaid adeiladu agoriadau drws fel na rwystrir y llwybr dŵr/gwastraff, neu ei ganiatáu i gasglu oherwydd nad oes mynediad.</li> </ul>	<p>Nid yw cyflwyno trwydded yn rhoi unrhyw fath o ganiatâd cynllunio.</p> <p>Dylai dyluniad yr unedau sicrhau fod pob cath yn cael mynediad parhaus at le cyfforddus, sych, heb ddrafft, glan a thawel i orffwys.</p> <p>Dylai'r dyluniad ystyried cyfeiriad daearyddol e.e. efallai bod unedau sy'n wynebu'r gogledd yn anoddach i'w cynhesu. Bydd cyfeirio'r unedau at y cyfeiriad cywir yn caniatáu y gwneir y defnydd mwyaf o olau naturiol.</p> <p>I sicrhau nad oes modd dianc drwy'r ffenestri dylid eu diogelu gyda rhwyll wedi'i weldio, neu eu cynhyrchu gyda gwydr cyfnerth, polycarbonad neu unrhyw ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll trawiad.</p>
--	--

<ul style="list-style-type: none"> <li><b>o.</b> Rhaid darparu sgriniau tisian a hylendid uchder llawn rhwng unedau.</li> <li><b>p.</b> Os ceir bwlch rhwng unedau sydd o leiaf 0.65metr (2') yna rhaid darparu sgrin tisian a hylendid sydd o leiaf 1.0metr (3'3") o uchder. Rhaid darparu'r un amddiffyniad i lety cyfagos wedi'i godi.</li> <li><b>q.</b> Mae'n rhaid i'r adeilad sicrhau fod y gath yn ddiogel.</li> <li><b>r.</b> Rhaid i bob ffenestr sy'n peri risg diogelwch atal unrhyw un rhag dianc bob amser.</li> <li><b>s.</b> Rhaid i unedau agor i goridorau diogel neu unrhyw fan diogel arall fel nad ydyw cathod yn gallu dianc o'r eiddo. Rhaid i bob man y gall y cathod fynd iddynt yn rhydd gael to gyda rhwyll addas neu ddeunydd anhydraidd.</li> </ul>	
<p><b>2.2 Maint y Llety</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a.</b> Rhaid i bob uned gael man cysgu sydd o leiaf 0.85 metr sgwâr i un gath neu 1.2 metr sgwâr i hyd at dair cath ar y mwyaf o'r un aelwyd, gyda'r man cysgu yn uchder o 1 metr ar y lleiaf.</li> <li><b>b.</b> Rhaid cael man ymarfer corff ym mhob uned sydd o leiaf 1.7 metr sgwâr i un gath, neu 3 metr sgwâr i hyd at dair cath ar y mwyaf, sydd ar wahân i'r man gwely ac wedi'i neilltuo i'r lloc hwnnw.</li> <li><b>c.</b> Rhaid i bob uned fod yn uchder o 1.8 metr ar y mwyaf.</li> <li><b>d.</b> Rhaid i unedau presennol nad ydynt yn ateb y meintiau lleiaf ar hyn o bryd fod yn addas er mwyn i'r gath/cathod fod yn gyfforddus a gellir cynnal eu huwchraddiad yn y dyfodol mewn camau dros nifer o flynyddoedd, ar ôl ymgynghori gyda pherchennog y cathdy.</li> <li><b>e.</b> Rhaid i'r man cysgu gael to gyda deunydd anhydraidd sy'n diogelu'r gath rhag tywydd garw.</li> </ul>	

<p><b>2.3 Gwely</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Offer gwely addas sy'n caniatáu'r gath i fod yn gyfforddus ac y gellir ei lanhau'n hawdd, a'i lanhau a'i ddiheintio'n ddigonol.</li> <li>b. Rhaid i offer o'r fath beidio â bod mewn mannau â drafft.</li> <li>c. Rhaid i ddeunydd gwely gael ei gynnal mewn cyflwr glân, heb barasitiaid ac sy'n sych.</li> </ul>	<p>Yn ymarferol gall y perchennog ddarparu gwely/offer gwely ei hun i'r gath.</p> <p>Gallai offer gwely addas sy'n cael ei ddarparu gan y sefydliad preswyl fod yn 'wely milfeddyg' neu ddeunydd tebyg. Mae modd glanhau a sychu'r math hwn o wely'n hawdd.</p>
<p><b>2.4 Tymheredd a Gwres</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid insiwleiddio'r mannau gwely'r unedau er mwyn atal tymheredd eithafol.</li> <li>b. Rhaid cynnal man gwely'r cathdy ar dymheredd sydd rhwng 10C a 26C.</li> <li>c. Mewn unedau arwahanu rhaid cael dull o gynnal y tymheredd ar lefel addas ar gyfer cyflwr y gath, ac yn dibynnu ar gyngor y milfeddyg. Er hynny, ni chaniateir i wres yn yr uned arwahanu fynd dros 26C neu'n is na 13C.</li> <li>d. Rhaid darparu thermomedr 'isafswm - uchafswm' ym mhob bloc uned ac uned arwahanu.</li> </ul>	<p>Ni all mannau awyr agored i gathod gael ymarfer corff gael rheoliad tymheredd llym. Ni ddylid rhoi'r cathod mewn ardaloedd o'r fath o dan amodau hinsoddol a allai beri trallod iddynt.</p> <p>Dylai'r deunyddiau a ddefnyddir y tu allan i'r cathdai gynnig digon o amddiffyniad rhag amrywiadau yn y tymheredd drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Lle bydd y tymheredd yn disgyn o dan y lefel a argymhellir, efallai y bydd ffynonellau gwres unigol i gathod yn ddigonol. Mewn rhai amgylchiadau bydd gofyn am wres cefndirol ychwanegol hefyd.</p>

<p><b>2.5 Golau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Yn ystod oriau golau dydd rhaid darparu golau yn y manau ymarfer corff a chysgu fel bod pob rhan yn weladwy iawn. Lle bo'n ymarferol, dylai hwn fod yn olau naturiol.</li> <li>b. Rhaid darparu golau artiffisial mewn manau sy'n cael eu defnyddio ar ôl oriau golau dydd.</li> <li>c. Rhaid gosod pob golau artiffisial gyda gorchuddion plastig clir fel na fydd unrhyw anafiadau posibl i gathod oherwydd gwydr wedi torri.</li> </ul>	<p>Rhaid i gathod fod mewn amgylchedd sy'n caniatáu digon o olau yn ystod oriau golau dydd; dylid diffodd unrhyw olau artiffisial yn y nos i ganiatáu patrymau cysgu naturiol.</p> <p>Mae angen i olau artiffisial fod ar gael er mwyn gwirio'r cathod y tu allan i oriau golau dydd yn drylwyr.</p>
<p><b>2.6 Awyru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid darparu system awyru barhaol yn yr ardaloedd cysgu ac ymarfer corff heb greu drafft gormodol, mewn manau yn yr ardal wely.</li> </ul>	<p>Dylai'r system awyru ym mhob llety dan do ddarparu digon o awyr iach o ansawdd addas er mwyn atal arogleuon, nwyon gwenwynig, llwch ac unrhyw gyfryngau heintus rhag lledaenu, ac i gael gwared ar wres a lleithder gormodol.</p> <p>Dylid dylunio'r system awyru er mwyn osgoi drafftiau a sŵn niweidiol.</p>
<p><b>2.7 Glanweithdra</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid cadw pob uned, coridor, ardal gyffredin, cegin ac ati yn lân ac ni ddylai baw na llwch gasglu yn y manau hyn, a rhaid eu cadw fel hyn fel eu bod yn addas ar gyfer gwaith cynnal neu reoli clefydau ac i fod yn gyfforddus i'r gath.</li> <li>b. Rhaid darparu gwasarnau sy'n cynnwys deunyddiau wedi'u cymeradwyo, sy'n hawdd i'w glanhau ac yn anathraidd.</li> </ul>	<p>Ceir rhestr o ddiheintyddion ar:</p> <p><b><u><a href="http://disinfectants.defra.gov.uk/">http://disinfectants.defra.gov.uk/</a></u></b></p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>c. Rhaid gwagio a glanhau'r rhain yn y bore a'u newid os oes gofyn am hynny yn ystod unrhyw adeg o'r dydd os ydynt yn rhy fudr.</li> <li>d. Rhaid i bob man gwely fod yn lân ac yn sych.</li> <li>e. Rhaid glanhau a diheintio pob uned yn drylwyr pan fyddant yn wag neu bob saith niwrnod, p'run bynnag sy'n llai o amser.</li> <li>f. Rhaid glanhau a diheintio pob gosodiad a gwely yn drylwyr hefyd cyn y byddant yn cael eu haildefnyddio.</li> </ul>	
<p><b>2.8 Rheoli Plâu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid cymryd camau i sicrhau nad ydyw llygod, pryfaid nac unrhyw blâu eraill yn y sefydliadau; a chathod heb barasitiaid allanol.</li> </ul>	<p>Dylid dilyn canllaw'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli er mwyn lleihau'r risg i gathod.</p>
<p><b>2.9 Draenio a Chael Gwared ar Wastraff</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid i'r sefydliad gael ei gysylltu â phrif gyflenwad draenio neu system gwaredu carthffosiaeth leol gymeradwy.</li> <li>b. Rhaid adeiladu llawr mewnol pob uned newydd ar ddigon o oleddf i sianel ddraenio â gorchudd wedi'i leoli i gymryd golchiadau llawr o bob uned, a'u rhyddhau i rigol â thrap sy'n cysylltu â'r system ddraenio fudr. Neu, rhaid adeiladu llawr y cathdy gyda deunydd anathraidd llyfn y gellir ei lanhau'n hawdd ac yn effeithiol</li> <li>c. Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared ar wastraff yn y dull cywir.</li> <li>d. Rhaid cymryd gofal penodol i wahanu gwastraff sy'n codi wrth drin a thrafod cathod gyda chlefydon heintus.</li> <li>e. Rhaid cytuno ar gyfleusterau gwaredu gwastraff anifeiliaid</li> </ul>	<p>Dylai perchennog y cathdy wirio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd am y canllaw diweddaraf ynglŷn â'r dull addas o gael gwared ar wastraff.</p> <p>Gallai hyn fod yn lloriau â theils, defnyddio mop a bwced, defnyddio cyn lleied o ddŵr â phosibl er mwyn osgoi gormod o ddŵr a chaniatáu iddo sychu'n sydyn.</p>



gyda'r Awdurdod Trwyddedu.	
----------------------------	--

### **3. Diet a Maeth**

*Rhaid i bob cath sy'n preswyllo gael digon o fwyd a diod addas. Rhaid i ddŵr iach fod ar gael drwy'r amser a rhaid ei newid yn ddyddiol. Rhaid i gyfleusterau paratoi bwyd digonol fod ar gael.*

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<p><b>3.1 Bwyd a Diod</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Rhaid i bob cath sy'n preswyllo gael digon o fwyd addas yn ôl cyfarwyddyd y cleient.</li><li>b. Rhaid i ddŵr iach fod ar gael drwy'r amser a rhaid ei newid yn ddyddiol.</li><li>c. Rhaid i lestri bwyta ac yfed atal unrhyw beth rhag cael ei golli cyn belled ag y bo'n ymarferol.</li><li>d. Rhaid i lestri fod yn hawdd i'w glanhau, eu diheintio a'u cynnal mewn cyflwr glân.</li></ul>	<p>Efallai y caiff hyn ei ddarparu gan y perchennog i osgoi unrhyw newid sydyn yn niet y gath a allai beri problemau treulio.</p>
<p><b>3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Rhaid darparu cyfleusterau addas sydd wedi'u hadeiladu a'u cynnal yn lanwaith er mwyn storio a pharatoi bwyd i'r cathod.</li><li>b. Lle bydd cigoedd ffres ac wedi'u coginio yn cael eu storio, rhaid darparu cyfleusterau rheweiddio. Rhaid osgoi halogi bwyd.</li><li>c. Rhaid i sinc gyda dŵr poeth ac oer fod ar gael i olchi offer cegin a llestri bwyta ac yfed.</li><li>d. Rhaid darparu cynwysyddion i storio bwyd ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal mewn cyflwr da fel eu bod yn rhydd o bryfaid a phlâu.</li></ul>	<p>Gallai hwn fod mewn ystafell ar wahân neu fan dynodedig sydd wedi'i neilltuo i'r rhai sy'n preswyllo.</p> <p>Dylid cael arwynebau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd ac sy'n sychu'n sydyn. Mae'n rhaid i'r holl fwyd gael ei storio yn addas i sicrhau ei fod aros yn ffres, yn sych ac nid yn debygol o gael ei halogi gan fermin.</p>

#### **4. Ymddygiad Arferol**

*Mae'n rhaid i gathod allu dangos patrymau ymddygiad arferol bob amser. Mae'n rhaid iddynt gael cyfle i fwynhau ymarfer corff a chael eu goruchwyllo'n ddigonol.*

<b>Amod y drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<p><b>4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Rhaid i'r gath gael mynediad rhwydd a hawdd rhwng y man gwely ac ymarfer corff drwy'r amser, ac eithrio pan fyddant yn cysgu yn y nos.</li><li>b. Rhaid cael to dros yr holl fan ymarfer corff.</li><li>c. Ni ddylid defnyddio'r manau ymarfer corff fel lle i gysgu.</li></ul>	<p>Mae cathod yn naturiol yn hoffi neidio a dringo a mwynhau golygfeydd o uchder, gyda hyn mewn golwg byddai amgylchedd 3D gyda sawl haen yn cynnwys silffoedd a llwybrau cerdded wedi'u codi'n esiamplau o sut i gynnig amgylchedd diddorol i'r cathod.</p>
<p><b>4.2 Goruchwyliaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Lle bydd y Trwyddedai yn absennol am dipyn o amser yna mae'n rhaid i'r eiddo gael ei oruchwyllo gan unigolyn addas a chymwys sydd o leiaf 16 oed.</li><li>b. Mae'n rhaid i'r rhai hynny sy'n goruchwyllo gael gwybodaeth drylwyr a manwl am amodau'r drwydded a chydymffurfio â nhw drwy'r amser.</li><li>c. Rhaid mynd i weld y cathod yn rheolaidd, yn ôl yr angen i'w iechyd, diogelwch a lles.</li></ul>	<p>Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n goruchwyllo'r cathod gael gwybodaeth ddigonol a phrofiad i allu ymdrin â'r cathod yn gywir ac yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt allu adnabod os yw ymddygiad cath yn awgrymu bod problem a gweithredu'n unol â hynny.</p> <p>Dylai staff gael mynediad at God Ymarfer ar Les Cathod (Llywodraeth Cymru) a bod yn gyfarwydd ag ef a phob deddfwriaeth berthnasol arall.</p> <p>Gallai peidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded adlewyrchu'n wael ar lefel cymhwyster y staff sy'n goruchwyllo.</p> <p>Mae darparwyr hyfforddiant achrededig ar gael i gynnig cyrsiau perthnasol y gallai'r Trwyddedai eu hystyried yn fuddiol i staff.</p>

	Dylai egwylion rheolaidd fod yn deirgwaith y diwrnod ar y lleiaf.
<p><b>4.3 Nifer Uchaf o Gathod y Gellir eu Cadw a Gofynion Staff</b></p> <p>a. Nodir y nifer uchaf o gathod y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg ar y drwydded ac ni ellir mynd dros hyn.</p> <p>b. O dan unrhyw amgylchiadau ni fydd y nifer uchaf o gathod ar y drwydded yn fwy na 40 i bob cymhorthydd LLAWN amser ac 20 i bob cymhorthydd RHAN amser sy'n gweithio yn y sefydliad.</p> <p>c. Gellir cwtogi ar y nifer o gathod sy'n cael preswyllo os bydd methiant i gydymffurfio â gofynion eraill y drwydded.</p> <p>d. Rhaid darparu uned ar wahân i bob cath ac eithrio cathod o'r un aelwyd, sy'n cael rhannu uned gyda chaniatâd geiriol perchennog y cathod, ar yr amod bod digon o le iddynt fod yn gyfforddus.</p>	<p>Dylai nifer y staff fod yn ddigonol i sicrhau bod pob cath yn cael digon o sylw unigol tra bydd yn preswyllo, i ateb ei ofynion iechyd a lles.</p> <p>Rhoddir ystyriaethau gan yr awdurdod trwyddedu i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; i gynnwys llety sydd ar gael, cyfleusterau ymarfer corff, bod gofynion iechyd a lles yn cael eu hateb a lefel o gydymffurfiaid parhaus â'r drwydded.</p> <p>Lle nad ydyw'r awdurdodau trwyddedu yn fodlon gyda gallu deiliad bwriedig y drwydded neu ddeiliad presennol y drwydded, dylent leihau ar y nifer o gathod y gall cymhorthydd ofalu amdanynt. Efallai y bydd modd gweld hyn os ydynt yn methu ag ateb amodau'r drwydded e.e. glanweithdra gwael.</p>

## **5. Iechyd a Lles**

*Rhaid cymryd camau rhesymol i atal a rheoli clefydau heintus neu ymledol rhag lledaenu. Rhaid i unrhyw anifail sâl neu sydd wedi'i anafu dderbyn gofal a thriniaeth addas heb oedi. Mae cyfleusterau arwahanu, offer cymorth cyntaf a diogelwch tân yn hanfodol.*

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<p><b>5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg</b></p> <p>a. Rhaid i bob sefydliad preswyl gofrestru gyda milfeddyg a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.</p>	<p>Gellir cael cyfeiriadau milfeddygon gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon: <a href="http://www.rcvs.org.uk/FindAVet">http://www.rcvs.org.uk/FindAVet</a></p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>b. Rhaid galw milfeddyg y sefydliad pan fydd arwyddion o glefyd, anaf neu salwch.</li> <li>c. Pan fydd cath yn sâl neu wedi'i hanafu rhaid dilyn unrhyw gyfarwyddiadau triniaeth a roddwyd gan y milfeddyg yn llym.</li> </ul>	
<p><b>5.2 Rheoli Clefydau a Rhoi Brechiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus, ymledol rhag lledaenu, a pharasitiaid ymhlith cathod, staff ac ymwelwyr.</li> <li>b. Rhaid i gathod sy'n lletya neu'n preswyllo yn y sefydliad gael cofnod diweddar o amddiffyniad wedi'i gymeradwyo gan filfeddyg rhag enteritis heintus cathod, clefyd anadlol cathod, FeLV ac unrhyw glefyd perthnasol arall</li> <li>c. Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw anifail sydd wedi marw yn yr eiddo. Rhaid i'r Trwyddedai wneud trefniadau i storio'r corff yn eiddo'r milfeddyg nes bydd y perchnogion yn dychwelyd.</li> </ul>	<p>Gallai rhagofalon digonol gynnwys brechiadau atgyfnerthu blynyddol ac unrhyw gamau ataliol eraill ar ddisgresiwn y trwyddedai. Ym mhob achos, dylid gwneud hyn ar ôl ymgynghori gyda milfeddyg.</p>
<p><b>5.3 Cyfleusterau Arwahanu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid i gyfleusterau arwahanu fod ar gael a chydymffurfio ag amodau eraill y drwydded, ond mae'n rhaid iddynt fod ar wahân yn gorfforol hefyd.</li> <li>b. Mae'n rhaid i'r cyfleusterau arwahanu hyn fod yn 5 metr i ffwrdd o unedau eraill y cathdy eraill ar y lleiaf (Gweler hefyd 2.4 Tymheredd a Gwres).</li> <li>c. Rhaid defnyddio cyfleusterau arwahanu pan fydd amheuaeth bod clefyd heintus yn bresennol.</li> <li>d. Rhaid darparu digon o gyfleusterau i atal clefydau heintus rhag lledaenu rhwng yr uned arwahanu ac unedau eraill.</li> </ul>	<p>Yn y lle cyntaf, dylid defnyddio cyfleusterau arwahanu os oes gan staff y cathdy unrhyw amheuon ynglŷn ag iechyd cath cyn gofyn am gymorth Milfeddyg.</p> <p>Dylai unigolyn penodol sy'n gallu sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb i leihau'r risg o ledaenu unrhyw afiechyd i unrhyw gath arall ar yr eiddo ymdrin â chathod sydd wedi'u harwahanu. Dylai hyn gynnwys camau bioddiogelwch sylfaenol gan gynnwys golchi dwylo, diheintio esgidiau a newid dillad (yn enwedig pe cadarnheir afiechyd) wrth fynd i mewn ac allan o'r cyfleuster.</p>

<p>Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys dip traed sy'n cynnwys diheintydd ac offer gwarchod personol i'w ddefnyddio yn y cyfleuster arwahanu'n unig.</p> <p>e. Rhaid golchi dwylo ar ôl gadael y cyfleusterau arwahanu cyn ymweld ag unedau eraill.</p>	<p>Gellir cael hyd i restr o ddiheintyddion wedi'u cymeradwyo ar: <a href="http://disinfectants.defra.gov.uk/">http://disinfectants.defra.gov.uk/</a></p>
<p><b>5.4 Gofynion Amrywiol</b></p> <p>a. Rhaid i offer cymorth cyntaf â digon o eitemau sy'n addas i'w defnyddio ar gathod fod ar gael ac yn hygyrch ar y safle.</p> <p>b. Pe bai cath yn dianc neu'n mynd ar goll o'r cathdy trwyddedig, rhaid i'r sawl â thrwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb ormod o oedi. Rhaid rhoi manylion llawn y dyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r gath, manylion llawn y perchennog, ac unrhyw gamau adfer a gymerwyd yn barod gan y trwyddedai i'r awdurdod trwyddedu.</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau yn gweithredu llinell frys 'y tu allan i oriau'. Gellir rhoi gwybod am unrhyw gathod sydd wedi dianc i'r cyfleuster hwn yn y lle cyntaf os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch adran drwyddedu.</p>
<p><b>5.5 Cludo Cathod</b></p> <p>a. Rhaid i'r sawl â thrwydded sy'n cynnig gwasanaethau casglu a danfon sicrhau fod cerbydau yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol Lles Anifeiliaid sy'n cael eu Cludo.</p> <p>b. Rhaid cadw pob cerbyd a ddefnyddir gan y sefydliad i gludo cathod yn lân.</p> <p>c. Rhaid cludo cathod mewn caetsys/basgedi neu focsys o faint ac adeiladwaith digonol (gan gynnwys rhwystrau tisian i reoli clefydau heintus) sydd gyda digon o awyru.</p> <p>d. Rhaid i bob cerbyd fod yn ddiogel.</p>	<p>Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofynion i sicrhau 'Lles Anifeiliaid sy'n cael eu Cludo'. Gallwch holi eich arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau cyfredol. Gall esiamplau gynnwys; Caets/caetsys wedi'u gosod yn ddiogel a digon o awyru. Yn ogystal â gofyniad i gael tystysgrif awdurdodi cludwyr.</p>

<p><b>5.6 Diogelu rhag Tân</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid cael cynllun argyfwng tân a gadael yr adeilad ar waith, ac mae'n rhaid i'r staff fod yn ymwybodol ohono.</li> <li>b. Rhaid dangos hwn lle gall staff ei weld.</li> <li>c. Rhaid cael digon o ffyrdd o gynnau'r larwm mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.</li> <li>d. Dylai'r drefn hon gynnwys cyfarwyddiadau sy'n delio â ble y dylid symud cathod.</li> <li>e. Rhaid cynnal offer diffodd tân a synwryddion yn gywir ac mae'n rhaid rhoi gwasanaeth i ddiffoddwyr tân neu gael rhai newydd yn ôl yr angen.</li> <li>f. Rhaid cynnal pob gosodiad ac offer trydanol mewn cyflwr diogel.</li> <li>g. Dylid cael system torrwr cylched cerrynt gweddillol ar bob bloc o unedau.</li> <li>h. Ni ddylid lleoli offer gwresogi mewn lleoliad neu ddull lle mae modd iddynt beri risg o dân neu risg i gathod.</li> <li>i. Rhaid cymryd rhagofalon i atal unrhyw ddeunyddiau rhag casglu a allai beri risg o dân.</li> </ul>	<p>Gyda rhagofalon tân mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i: Mynediad ar gyfer Diffodd Tân a Chyflenwadau Dŵr, Ffyrdd o Ddianc, Arwyddion Dim Ysmygu, Gosodiadau Trydanol, Offer a rhybuddion diffodd Tân. Am fanylion llawn cyfeiriwch at Atodlen B sy'n amgaeedig.</p>
<p><b>5.7 Diogelwch Offer Trydanol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Mae'n rhaid i chi sicrhau fod pob system drydanol yn cael ei hadeiladu a'i chynnal yn ddigonol, er mwyn osgoi perygl, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.</li> </ul>	<p>I gynorthwyo cydymffurfiad â'r rheoliadau gweler Atodlen C sy'n amgaeedig.</p>

## **6. Cadw Cofnodion**

*Rhaid cadw cofnodion fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, gan roi manylion am yr holl wybodaeth berthnasol am bob cath sy'n preswyllo a chyfeirio atynt yn erbyn rhif uned unigol y gath, i sicrhau bod staff yn llwyr ymwybodol o anghenion unigol y gath.*

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<p><b>6.1 Cofrestr</b></p> <p><b>a.</b> Rhaid cadw cofrestr o'r holl gathod sy'n preswyllo. Mae'r wybodaeth a gedwir yn gorfod cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dyddiad cyrraedd a rhif uned</li><li>• Enw'r gath, ac unrhyw farciau adnabod</li><li>• Disgrifiad, brîd, oed a rhyw'r gath</li><li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad</li><li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr unigolyn cyswllt tra bydd y gath yn preswyllo</li><li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y gath</li><li>• Dyddiad y disgwylir i'r gath adael a gwir ddyddiad gadael</li><li>• Iechyd, lles a gofynion maeth</li></ul> <p><b>b.</b> Rhaid sicrhau bod cofnodion ar gael am o leiaf 24 mis a'u cadw mewn dull i alluogi swyddog ag awdurdod i gael mynediad hawdd at wybodaeth o'r fath.</p> <p><b>c.</b> Lle cedwir cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled.</p> <p><b>d.</b> Mae'n rhaid i'r gofrestr hefyd fod ar gael i aelodau o staff y sefydliad bob amser.</p>	<p>Mae'n rhaid i'r gofrestr fod mewn fformat sy'n glir ac yn hawdd i'w deall gan unrhyw staff a'r archwilydd trwyddedu.</p>



<p><b>6.2 Adnabod Unedau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid dangos rhif yr uned yn glir.</li> <li>b. Rhaid dangos enw a disgrifiad o'r gath sy'n preswyllo ar hyn o bryd ar bob uned, neu fel arall, ar fwrdd gwyn/du ym mhob bloc uned gyda rhif yr uned a manylion y gath wedi'u hysgrifennu'n glir arno.</li> </ul>	<p>Gellir defnyddio cerdyn maint cerdyn post yn cynnwys enw'r gath a lliw/brîd (ar y lleiaf), wedi'i osod yn briodol ar du blaen bob cath dŷ.</p> <p>Gall bwrdd gwyn/du gyda rhif pob uned arno a manylion y gath/cathod sydd yno ar hyn o bryd h.y. enw, lliw/brîd, gofynion dietegol neu arbennig, ddarparu gwybodaeth gryno am bob cath sydd yn y bloc uned.</p>
---	---

## 7. Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae Adran 9 o'r Ddeddf uchod yn gosod dyletswydd gofal ar unigolyn sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn datgan bod unigolyn yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi manylion am ofynion penodol a chanllaw y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Lle ceir posibilrwydd bod Dyletswydd Gofal yn cael ei dorri o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, fe allai'r Cyngor ddewis cyflwyno Rhybudd Gwelliant i ddatrys y broblem.

<b>Amod y Drwydded</b>	<b>Canllaw</b>
<p><b>7.1 Meddyginiaeth Rheolaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Rhaid i unigolyn cymwys ac addas roi meddyginiaeth neu driniaeth reolaidd/ddyddiol i gathod sy'n preswyllo.</li> <li>b. Rhaid faint a pha mor aml y dylid rhoi meddyginiaeth yn llawn a'u cofnodi cyn arhosiad y gath.</li> </ul>	<p>Mae'n arfer da i'r trwyddedai gael tystiolaeth ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw ofynion meddyginiaeth i ddiogelu iechyd a lles y gath ac i ddiogelu eu hunain rhag unrhyw broblemau yn y dyfodol.</p>

<p><b>7.2 Cymdeithasu</b></p> <p>a. Rhaid rhoi'r cyfle i bob cath gael rhyngweithio a chael ysgogiad dyddiol.</p>	<p>Dylid cynnal ymarfer corff, chwarae ac unrhyw gyswllt arall â phobl i sicrhau bod cathod yn cael digon o gyswllt â phobl. Cyn belled ag sy'n ymarferol, yn ddiogel ac yn addas gyda hyd arhosiad y gath yn y cathdy.</p>
<p><b>7.3 Ysgogiad Gweledol ac Ategolion</b></p> <p>a. Wrth adeiladu, ychwanegu neu ailwampio cathdy presennol, dylid adeiladu fel ei bod yn cynnig ysgogiad gweledol a difyrrwch i'r cathod lle bo'n gymwys.</p> <p>b. Rhaid ychwanegu ategolion y gall y cathod ymwneud â nhw'n gorfforol fel pyst crafu a theganau gweithgareddau i wneud yn fawr o'r amgylchedd a chael gwared ar ddiflastod.</p>	<p>Wrth ddylunio adeilad cathdy newydd, bydd 'golygfa' o bob uned yn ffordd o roi ysgogiad gweledol.</p> <p>Gall teganau gweithgaredd gynnwys: teganau pos a theganau ysgafn sy'n rholio, neu unrhyw degan addas a diogel sy'n annog ymddygiad naturiol y gath fel hela/dal ysglyfaeth.</p>

<p><b>Argymhelliad</b></p>	<p><b>Canllaw</b></p>
<p><b>Polisi Yswiriant</b></p> <p>Fe argymhellir yn gryf y dylai pob sefydliad preswyl gael yswiriant cymwys a digonol.</p>	<p>Dylai'r yswiriant ddelio ag amrywiaeth eang o anffodion yn ymwneud â chathod, fel gofal milfeddyg mewn argyfwng, colled, atebolrwydd trydydd parti, ac atebolrwydd y cyflogwr lle bo'n briodol.</p>

## **MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG**

### **A. TREFN APELIO**

#### **Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)**

Caniateir i unrhyw berson a dramgwyddir gan wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod y mae trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i'r Llys Ynadon; a chaiff y Llys roi pa bynnag gyfarwyddiadau fel yr ystyria sy'n briodol ynghylch y drwydded neu ei hamodau fel y gwêl yn briodol.

### **B. CANLLAW RHAGOFALON TÂN**

Rhoddir y wybodaeth ganlynol i'r sawl â thrwydded, er mwyn cydymffurfio â gofynion rhagofalon tân sydd wedi'u manylu yn amodau trwydded y Cyngor, sy'n gofyn am gymryd camau priodol i ddiogelu anifeiliaid mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.

Bwriad y canllaw yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i breswylwyr dynol. Dylid cadw mewn cof y gallai deddfwriaeth arall ymdrin â gofynion diogelwch tân i bobl.

Dylid ystyried y materion canlynol :

1. Mynediad at Gyflenwadau Diffodd Tân a Dŵr – Dylid darparu mynediad da at offer diffodd tân (lled o 3.7m ar y lleiaf) i bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu llawr caled. Dylid dangos bwrdd gydag enw'r eiddo yn glir ger y mynediad ffordd agosaf.
2. Ffyrdd o Ddianc – Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid sy'n ffordd syth allan o'r adeiladau, gyda chyn lleied â phosibl o gymorth dynol. Dylid trefnu drysau llocliau fel y gall anifeiliaid adael yn sydyn a dylid osgoi troadau llym, rhwystrau a rampiau ar y llwybrau dianc cyn belled â phosibl.
  - a) Dylai'r eiddo gael allanfeydd sydd â digon o led ac uchder i ganiatáu mynediad hawdd at yr anifeiliaid ar bob adeg.
  - b) Dylid gallu agor allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
  - c) Os oes angen, dylid gwneud darpariaeth i gael gadael ar ddeiliad allwedd yn sydyn.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr mewn lled neu lle ceir nifer fawr o anifeiliaid, dylid darparu dwy allanfa a'u lleoli cyn belled i ffwrdd o'i gilydd â phosibl. Dylai'r pellter teithio gael ei gyfyngu i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid dangos Arwyddion Dim Ysmygu ym mhob ardal sydd gyda gwair a gwellt a lle bo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.
4. Gosodiadau trydanol – Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau, yn rheolaidd fel nad ydyw llwch yn casglu. Dylid gosod a diogelu offer trydanol, gwresogyddion ac ati fel eu bod yn bellter diogel o unrhyw ddeunydd gwely fflamadwy.
5. Offer Diffodd Tân
  - a. Diffoddwyr Tân Cludadwy – Mae'r canlynol yn cael eu hargymell ar y lleiaf:
    - Mae adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr mewn arwynebedd yn gofyn am o leiaf 2x9 litr o ddiffoddwyr dŵr, i adeiladau dros 200 metr sgwâr mae angen diffoddwr tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran ohono.
    - Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy ateb gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
    - Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, gallai fod yn bosibl lleihau hyn i un diffoddwr mewn eiddo bach iawn, gyda gofod llawr sy'n llai na 90m<sup>2</sup>.
    - **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn uchel, e.e. CO<sub>2</sub>, neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.
  - b. Peipiau Dŵr – Gellir darparu peipiau dŵr fel dull opsiwn gwahanol i ddiffoddwyr tân cludadwy. Dylid cael un beipen ar gyfer bob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran ohono ar y lleiaf. Fe ddylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Mae peipiau golchi yn dderbyniol os oes llif rheolaidd o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd dŵr o 5 metr ar y lleiaf. Ni ddylai peipiau dŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r chwistrell o fewn i 6m o bob rhan o'r eiddo sydd wedi'i ddiogelu.
6. Rhybuddion Tân – Dylai pob aelod o staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd gyda pha gamau gweithredu y dylid eu cymryd mewn achos tân. Rhaid darparu rhybudd ysgrifenedig ac amlwg yn dynodi'r camau i'w cymryd mewn achos tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall y rhybudd hwn gynnwys y canlynol:

“Wrth ddarganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad yn cael ei wagio.

Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn .....

Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw hi'n ddiogel i wneud hynny ac ati”

7. *Cyfeirnod Map O/S – Dylid cael Cyfeirnod Map Arolwg Ordnans ar gyfer yr eiddo a'i arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.*

**Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn gofyn bod yr holl ragofalon tân hanfodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu unigolion perthnasol rhag ofn y bydd tân yn yr eiddo ac o'i gwmpas, y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddo.

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r gorchymyn gyda'r 'unigolyn cyfrifol'. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn ac unrhyw unigolyn arall a all fod â rheolaeth o unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Mewn unrhyw eiddo arall yr unigolyn/unigolion mewn rheolaeth o'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

Gynnal Aseiad Risg Tân a rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol os oes pump neu fwy o unigolion yn cael eu cyflogi, os yw'r eiddo wedi'i drwyddedu neu os yw hysbysiad newidiadau ar waith.

I'ch cynorthwyo chi ymhellach, mae'r Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r Stationary Office neu drwy wefan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol ([www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)).

### **C. IECHYD A DIOGELWCH**

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth bynnag pa mor fychan ydyw. Fel cyflogwr neu unigolyn hunan gyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y camau cywir i leihau'r risgiau o beryglon gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Ceir canllaw o'r enw "Health and Safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol ynglŷn â beth rydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich helpu i roi cychwyn arni wrth reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Efallai y bydd angen i chi wneud rhai pethau ychwanegol gydag ambell i weithgaredd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gellir cael canllawiau pellach ar bynciau penodol fel rheoli asbestos, atal salwch ar ôl cysylltu ag anifail ac ati, a modelau aseidiadau risg ar gael ar-lein ar [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 575283 a gofynnwch am y swyddog dyletswydd neu anfonwch e-bost atom ar [gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk](mailto:gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk)

Gellir llwytho'r daflen "Health and Safety made simple" i lawr drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:  
<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>